eiriolaeth advocacy
Y Rhaglen Edau Euraidd
The Golden Thread Programme

age Cymru
Creu Cymru oed gyfeillgar
Creating an age friendly Wales

# Cylchlythyr Eiriolaeth

## Y Cyfryngau ac Adnoddau

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ac Age Cymru wedi cynhyrchu DVD ynglŷn ag Ymwybyddiaeth o Eiriolaeth.

Mae ganddynt hefyd Hwb Adnoddau Eiriolaeth newydd i'w ddefnyddio ar gyfer rhagor o wybodaeth.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi cynhyrchu dolen Adnodd Gofal Dementia ar gyfer Gweithwyr Gofal Proffesiynol

Mae Canolfan Byw'n Annibynnol Dewis a'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol wedi cynhyrchu'r rhain Ymwybyddiaeth o Eiriolaeth Clipiau Fideo.

Mae Voiceability wedi cynhyrchu'r canllaw adnoddau hwn i eiriolwyr STOMP sy'n edrych ar orddefnydd o feddyginiaeth mewn grwpiau o bobl fregus.

Mae'r Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd (GTAP) wedi cynhyrchu DVD ynglŷn ag Ymwybyddiaeth o Eiriolaeth mewn dwy sefyllfa benodol.

Pennu'r angen am Eiriolaeth gyda'r Siart Lif hon.

Sbectrwm Eiriolaeth
sy'n dangos y gwasanaethau eiriolaeth fel y'u disgrifir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## Adnoddau Age Cymru

Adroddiad llawn a chrynodeb gweithredol o'r Pwysigrwydd Eiriolaeth 6 diweddaraf. Pwysigrwydd Eiriolaeth 7 - arolwg wedi dod i ben ac mae gwaith bellach yn mynd rhagddo ar y ddogfen derfynol.

## Adnoddau Age Cymru

Canllaw i wahanol fathau o eiriolaeth
Canllaw i eiriolaeth a sut y gall eich helpu chi

**Fframwaith ar gyfer comisiynu eiriolaeth broffesiynol annibynnol i oedolion.**

Mae Age Cymru wedi lansio ei Fframwaith ar gyfer Comisiynu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol i Oedolion o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
Bwriad y fframwaith yw cefnogi awdurdodau lleol a'u partneriaid, gan gynnwys Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, i fodloni gofynion y Ddeddf wrth gomisiynu eiriolaeth broffesiynol annibynnol i oedolion. Mae hefyd wedi ei ddylunio i gefnogi datblygiad ffurfiau ehangach o eiriolaeth megis hunaneiriolaeth, eiriolaeth anffurfiol gan deulu a ffrindiau, ac eiriolaeth mwy ffurfiol gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol fel rhan o'u swyddi bob dydd.

**Pecyn Cymorth**

Mae'r Pecyn Cymorth wedi ei ddylunio i gefnogi'r defnydd o'r Fframwaith drwy

- Ddarparu arweiniad ar weithredu'r fframwaith Atgyfeirio at ragor o wybodaeth am eiriolaeth
- Cynghori ar gymhwyso'r cylch comisiynu i gymorth Eiriolaeth i helpu i adolygu dulliau comisiynu eiriolaeth.

## Adnoddau Age Cymru

Mae Matrics Aeddfedrwydd wedi cael ei ddatblygu i ddarparwyr fel rhan o'r pecyn cymorth i gefnogi rhoi'r Fframwaith ar gyfer Comisiynu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol i Oedolion o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith. Mae'r pecyn cymorth hwn wedi cael ei ddatblygu gan ddarparwyr gwasanaethau eiriolaeth, sy'n gweithio gyda'r Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd (GTAP) ac mae wedi ei ddylunio fel dogfen fewnol, i helpu sefydliadau i asesu eu cynnydd eu hunain wrth ddatblygu gwasanaeth eiriolaeth aeddfed a'u parodrwydd ar gyfer cyfleoedd comisiynu yn y dyfodol. Mae'n ategu'r fersiwn sydd ar gael i gomisiynwyr ac yn adeiladu ar y ddogfen hunanasesu bresennol a ddefnyddiwyd gan ddarparwyr yn y gorffennol. Ceir hyd i'r matrics aeddfedrwydd yn yr atodiad i becyn cymorth y Fframwaith.

## Cynhadledd Eiriolaeth Cymru

Ar 7 Tachwedd 2019 cynhaliodd Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd (GTAP) Age Cymru Gynhadledd Eiriolaeth Cymru gyfan i ddarparwyr eiriolaeth. Roedd yn ddiwrnod gwerth chweil gyda mwy na 100 o fynychwyr yn mynychu o bob cwr o Gymru ac o ystod eang o wasanaethau eiriolaeth.

Roedd ein siaradwyr a'n hwyluswyr gweithdai yn wych ac rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a ddaeth a sicrhau bod y diwrnod yn gymaint o lwyddiant. Mae cyflwyniadau'r gynhadledd ar gael i'w gweld ar wefan Age Cymru.




Victoria Lloyd, Prif Weithredwr Age Cymru a Chadeirydd y Gynhadledd




Louise Hughes Rheolwr Rhaglen Edau Euraidd, Age Cymru



Prif siaradwr Julie Morgan AC



Mynychwyr y gynhadledd



Parhad...

## Rhwydweithiau Eiriolaeth

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ystod o rwydweithiau darparwyr eiriolaeth rhanbarthol wedi cael eu datblygi i ategu'r rhwydweithiau rhanbarthol presennol a'r rhwydwaith cenedlaethol fel rhan o waith y Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd (GTAP). Mae'r rhwydweithiau yn gyfle i wasanaethau sy'n darparu eiriolaeth ar hyn o bryd, a'r rhai hynny sy'n dymuno gwneud hynny yn y dyfodol, i gael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa gyfredol yn y rhanbarth, cyfleoedd comisiynu posibl a allai godi yn y dyfodol ac i gael gofod i rwydweithio a rhannu gwybodaeth a syniadau.

Isod ceir manylion y rownd nesaf o gyfarfodydd rhwydweithiau rhanbarthol:

**Rhwydwaith Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro** 3 Rhagfyr 2019 10.30am - 12.45pm Swyddfeydd Dinesig, y Barri

**Rhwydwaith Rhanbarthol Tair Sir yng Ngorllewin Cymru**
14 Ionawr 2020 10am-1pm
Swyddfeydd Eiriol,
Caerfyrddin

**Rhwydwaith Rhanbarthol Gwent**
22 Ionawr 2020 10am-12pm
Mamhilad, Pont-y-pŵl

**Rhwydwaith Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg**
29 Ionawr 2020 10am-12pm
Swyddfeydd Dewis, Pontypridd

**Rhwydwaith Rhanbarthol Powys**
Chwefror 2020 i'w gadarnhau

**Rhwydwaith Rhanbarthol Gogledd Cymru** Chwefror 2020 i'w gadarnhau

**Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth i Oedolion**
20 Mawrth 2020 10am-3pm
Neuadd Maesmawr,
Caersŵs

Am ragor o wybodaeth ynglŷn ag unrhyw un o'r rhwydweithiau eiriolaeth, cysylltwch â Marc Forster ar 07932 989656 neu marc.forster@agecymru.org.uk

## Comisiynu Eiriolaeth

### *Ein Gweledigaeth a Bwriadau ar gyfer Eiriolaeth i Oedolion, 2019 - 2024*

Ar ôl mwy na dwy flynedd o weithio ar y cyd ar draws pum awdurdod lleol Gwent a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, mae strategaeth comisiynu eiriolaeth ranbarthol i oedolion wedi cael ei chyhoeddi ac mae llinell gymorth eiriolaeth newydd wedi cael ei lansio.

### Lansio strategaeth comisiynu eiriolaeth a llinell gymorth Gwent

Mae'r strategaeth gomisiynu, sy'n dwyn yr enw *'Ein Gweledigaeth a Bwriadau ar gyfer Eiriolaeth i Oedolion'* yn amlinellu cyfeiriad clir ar gyfer datblygu gwasanaethau eiriolaeth yn y rhanbarth dros y pum mlynedd nesaf. Gellir cael gafael arni yn:
http://bit.ly/GwentAdultAdvocacy a
http://bit.ly/EiriolaethiOedolionyngNgwent
Mae'r strategaeth yn "cymryd agwedd gytbwys at ddarparu gwasanaeth eiriolaeth broffesiynol annibynnol i rai pobl yn y system gwasanaethau cymdeithasol, gan gefnogi ar yr un pryd datblygiad y sector eiriolaeth ehangach."

Mae'r strategaeth yn ymateb i gam gweithredu yn y cynllun rhanbarthol a oedd yn ceisio:

- Alinio darpariaeth eiriolaeth â blaenoriaethau a nodwyd ar draws asiantaethau partner

- Agwedd ar y cyd at ddarpariaeth eiriolaeth gyda phartneriaid y trydydd sector yn enwedig wrth hyrwyddo eiriolaeth annibynnol.

Cynhyrchwyd y strategaeth ar y cyd gan Grŵp Llywio Comisiynwyr Eiriolaeth, a Rhwydwaith Darparwyr Eiriolaeth, a Grŵp Cyfeirio Eiriolaeth Dinasyddion a Fforwm Cyd-gynhyrchu Eiriolaeth. Mae'r Fforwm yn dwyn ynghyd cynrychiolwyr o grwpiau rhanddeiliaid eraill, sy'n rhannu pŵer a chyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau.

Parhad...

**Lansio strategaeth comisiynu eiriolaeth a llinell gymorth Gwent** (parhad)

Gwnaeth rhanddeiliaid hefyd lywio datblygiad y strategaeth drwy ddau ddigwyddiad ymgysylltu cychwynnol ym mis Mawrth 2018, a gweithdai ymgynghori ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2018. Roedd un o'r digwyddiadau ymgynghori i bobl sydd ag anableddau dysgu a wnaeth adnabod deg prif bryder yr hoffent i'r strategaeth fynd i'r afael â nhw. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i anghenion arbennig grwpiau eraill, gan gynnwys defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain.

Mae'r strategaeth wedi ei dylunio i fod yn 'ddogfen fyw' a fydd yn cael ei datblygu ymhellach dros amser. Un o'i bwriadau yw cyd-gynhyrchu'r meini prawf ar gyfer 'cynnig gweithredol' o eiriolaeth i rai oedolion ar sail debyg i'r cynnig gweithredol i rai plant a phobl ifanc.

**Mynediad i Eiriolaeth Gwent**

Gwnaeth yr wybodaeth a gynhyrchwyd drwy brosesau ymgysylltu, ymgynghori a chyd-gynhyrchu helpu i siapio cynnig llwyddiannus i'r Gronfa Gofal Integredig ar gyfer prosiect peilot dros ddwy flynedd. Yn dwyn yr enw Mynediad i Eiriolaeth Gwent (GATA), mae gan y prosiect dri phrif amcan:

- sefydlu un pwynt mynediad annibynnol i wasanaethau eiriolaeth i oedolion ar gyfer dinasyddion a gweithwyr proffesiynol i sicrhau bod unigolion yn derbyn y ffurf ar Eiriolaeth fwyaf priodol
- cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth o eiriolaeth proffil uchel i'r cyhoedd a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol
- adeiladu gallu'r sector eiriolaeth i reoli galw cynyddol.

Yn bwysig iawn, bydd y peilot hefyd yn cynhyrchu data a fydd yn galluogi comisiynwyr i adnabod bylchau yn y ddarpariaeth, cynllunio ar gyfer galw yn y dyfodol yn fwy cywir a siapio dyluniad gwasanaeth eiriolaeth rhanbarthol ar gyfer y dyfodol.

Dan reolaeth y fenter gymdeithasol wedi'i lleoli yng Nghaerdydd, ProMo-Cymru, lansiwyd llinell gymorth (0808 801 0566) a gwefan ( https://gata.cymru) GATA ar 18 Gorffennaf 2019. Mae pecynnau gwybodaeth yn cael eu dosbarthu i dimau gwaith cymdeithasol a gwasanaethau IAA i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn llwyr ymwybodol o ddiben y prosiect a'r broses atgyfeirio.

Mae is-grŵp y Grŵp Cyfeirio Eiriolaeth Dinasyddion yn arwain ar y gwaith o ddatblygu ymgyrch codi ymwybyddiaeth. Mae cynigion yn cynnwys rhwydwaith o hyrwyddwyr eiriolaeth i estyn allan i'r grwpiau mwy ymylol yn y rhanbarthol.

**Cyd-gynhyrchu**

Roedd y cynllun rhanbarthol yn cynnwys ymrwymiad i "fabwysiadu agwedd gyd-gynhyrchu at gomisiynu eiriolaeth". Adnabuwyd cyd-gynhyrchu fel un o'r pedair prif flaenoriaeth i'r strategaeth fynd i'r afael â nhw ac mae'r Rhagair yn nodi bod "y cyd-gynhyrchu sydd wedi arwain at y strategaeth hon, efallai yr un mor bwysig â'r strategaeth ei hun. Mae wedi bod, ac yn parhau i fod, yn brofiad dysgu cyfoethog i bawb sy'n gysylltiedig ac sydd eisoes yn gweld gwelliannau wrth rannu gwybodaeth i gefnogi dinasyddion. Rydym yn edrych ymlaen at barhau i gyd-gynhyrchu wrth i ni fynd ati i roi'r strategaeth ar waith."

Gan ddangos eu cefnogaeth i gyd-gynhyrchu, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent oedd un o noddwyr cynhadledd flynyddol Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru eleni. Gwnaeth y Bartneriaeth hefyd gefnogi gweithdy ar 'Rannu Pŵer drwy Gyd-gynhyrchu', a oedd yn anelu at adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r broses comisiynu eiriolaeth ac atgyfnerthu cyd-gynhyrchu yng Ngwent.

Parhad...

## *Cyngor Age Cymru*

Gall Age Cymru ddarparu
cyngor diduedd, rhad ac am ddim i'ch etholwyr ar amrywiaeth o bynciau.

Efallai eu bod eisiau cyngor ar faint y dylent fod yn ei dalu am ofal rhywun annwyl iddynt? Neu efallai eu bod am wybod a ydynt yn gymwys am Gredyd Pensiwn ac eisiau helpu i'w hawlio?

Gall Age Cymru helpu gyda'r holl faterion hyn, a mwy - ffoniwch ni heddiw ar

**08000 223 444**

**Cysylltwch â ni...**

- **I danysgrifio i'r e-fwletin neu gylchlythyr**
- **Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau am yr erthyglau**
- **Os oes unrhyw beth yr hoffech chi ei weld yn y cylchlythyr nesaf**

**E-bost:**
**sue.vaarkamp@agecymru.org.uk**

**Ff: 01352 706228**

**Mae'r golygydd yn cadw'r hawl i newid erthyglau a gyflwynwyd i'w cyhoeddi. Nid barn Age Cymru yw'r rhai a gyflwynir yn y Cylchlythyr hwn o reidrwydd.**

**Derbynnir hysbysebion ac unrhyw ddogfennau**
**i'w mewnosod yn ddidwyll, ond nid yw cynhyrchion neu wasanaethau y cyfeirir atynt drwy hynny'n cael eu cymeradwyo neu eu hargymell gan Age Cymru.**

**Age Cymru**
**Llawr Gwaelod,**
**Tŷ Mariners,**
**Llys Trident**
**Heol East Moors,**
**Caerdydd, CF24**
**5TD**

**ff: 029 2043 1555**

**e: enquiries@agecymru.org.uk**
**www.agecymru.org.uk**

Rhif elusen gofrestredig: 1128436 Rhif cwmni cofrestredig: 6837284

© Age Cymru 2019

Creu Cymru oed gyfeillgar
Creating an age friendly Wales

Promoting equality for all
Hyrwyddo cydraddoldeb i bawb

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government